

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Specialist Skin Clinic

Dyddiad arolygu: 16 Hydref 2019

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ionawr
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	18
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	21
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ..	22
	Atodiad B – Cynllun gwella	23

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Specialist Skin Clinic ar 16 Hydref 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Nodwyd gennym fod Specialist Skin Clinic yn darparu gwasanaeth effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i roi triniaethau IPL/laser.

Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn, gyda phob un o'r cleifion yn nodi bod y gofal a'r driniaeth a gawsant yn ardderchog.

Roedd y staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol er mwyn helpu i ddarparu triniaeth ddiogel i gleifion.

Roedd trefniadau addas ar waith i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i gleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd nodiadau a chofnodion cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel
- Roedd y clinig yn ymrwymedig i wella gwasanaethau ac yn mynd ati i geisio adborth gan y cleifion am eu profiadau
- Roedd dogfennaeth ar gael i ddangos bod y peiriannau IPL/laser wedi cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai pob aelod o'r staff gael hyfforddiant diogelu priodol
- Roedd angen dyfeisiau EpiPen newydd yn lle'r rheini a welsom yn y clinig a oedd wedi darfod.

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd gennym achosion o dorri rheoliadau yr oedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Specialist Skin Clinic wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol yn 10 Penlline Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AD.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o wyth o staff sy'n cynnwys pedwar gweithredwr peiriannau Goleuni Pwls Dwys (IPL)/laser.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 03 Chwefror 2014 ac mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n cynnwys:

- Adfywio'r croen
- Gwaredu tatŵau
- Gwaredu gwallt
- Gwythiennau ar yr wyneb a'r coesau
- Creithiau (acne, celoid)
- Briwiau pigmentog
- Briwiau fasgwlaidd.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig a bod y rheolwr cofrestredig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn â'u triniaeth.

Gallai'r cleifion roi adborth ar eu profiadau o'r gofal a'r driniaeth a gafwyd yn y clinig.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron.

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd yn ardderchog. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Hapus iawn â'r amgylchedd, y staff a'r profiad cyffredinol.
Staff cyfeillgar a phroffesiynol iawn"*

"Clinig ardderchog - proffesiynol, cyfeillgar a glân iawn"

"Gwasanaeth gwybodaeth a staff cwrtais - bob tro'n hapus â'r gwasanaeth"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod yn rhaid i'r cleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn derbyn unrhyw driniaeth gychwynnol. Holir y cleifion am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol mewn apwyntiadau dilynol ar lafar gan weithredwr y peiriant IPL/laser.

Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni hanes meddygol wedi'u cwblhau a'u llofnodi a bod yr achosion o holi'r cleifion am eu hanes meddygol ar lafar wedi'u cofnodi

yng nghofnodion y cleifion i gadarnhau bod hyn yn cael ei wneud. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC hefyd eu bod yn llenwi ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun yn cadarnhau eu hanes meddygol, cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Gwnaethom nodi bod hyn yn enghraifft o arfer da er mwyn helpu i sicrhau bod unrhyw driniaeth a ddarperir i gleifion yn ddiogel ac yn diwallu eu hanghenion unigol.

Urddas a pharch

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi'u trin ag urddas a pharch gan y staff yn y clinig ac roeddent yn teimlo eu bod yn gallu cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster bob amser yn ystod apwyntiadau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cleifion yn gallu newid yn unrhyw un o'r ystafelloedd triniaeth y gellir eu cloi a'u bod yn cael tywelion er mwyn helpu i gynnal eu hurddas. Cynhelir ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafell driniaeth er mwyn sicrhau y gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb fod neb yn clywed.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gall y cleifion gael aelod o'r teulu, ffrind neu hebryngwr ffurfiol wrth law i'w cefnogi yn ystod ymgynghoriadau a sesiynau triniaeth.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n asesu galluedd y cleifion i gydsynio i driniaeth a rhoddwyd sicrwydd i ni fod y cleifion yn gallu gwneud eu penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â chydsynio i driniaeth. Caiff y cleifion ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn derbyn triniaeth, yn ogystal â chopi o'r canllaw i gleifion i'w ddarllen a'i gadw. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth er mwyn eu helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth a oedd ar gael a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod bob amser yn cael gwybod am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser yn llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael unrhyw driniaeth newydd. Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni cydsynio yng nghofnodion y cleifion wedi'u llofnodi ganddynt a'u cydlofnodi gan weithredwr y peiriant IPL/laser i gadarnhau hyn.

Mae Specialist Skin Clinic wedi'i gofrestru i ddarparu rhywfaint o driniaethau i blant dros 12 oed. Dywedwyd wrthym fod angen iddynt dderbyn cydsyniad rhieni cyn gallu darparu unrhyw driniaeth i gleifion dan 16 oed.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y staff yn gwrandao arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys, cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Gwelsom fod copïau o ganllaw'r clinig i gleifion a datganiad o ddiben¹ ar gael i'r cleifion mewn ffolder gwybodaeth i gleifion yn yr ardal aros. Nodwyd gennym fod y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cynllunio a darparu gofal

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn triniaeth addas sy'n cael eu cwblhau ar gleifion er mwyn sicrhau bod y peiriant IPL/laser o ystyried y math o groen a gwallt sydd ganddynt. Lle y bo'n gymwys, cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod prawf clwt wedi'i gynnal ar ardal fach o'u croen cyn iddynt dderbyn triniaeth.

Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint a chynorthwyo'r broses wella ar ôl eu triniaeth.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a gwelwyd tystiolaeth bod nodiadau'r cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel, gan olygu bod diogelwch a llesiant cleifion, yn ogystal ag anghenion unigol, yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gofal.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

¹ Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

Roedd maes parcio preifat ar gael i gleifion y tu ôl i'r clinig. Roedd y clinig wedi'i lleoli ar dri llawr, ond roedd y dderbynfa, yr ardal aros a rhai ystafelloedd triniaeth wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod ac felly'n addas i bobl sy'n ei chael hi'n anodd symud. Gwnaethom hefyd nodi bod toiledau a oedd yn addas i gadeiriau olwyn ar y llawr gwaelod.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i geisio adborth gan y cleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Caiff y cleifion holiadur ar ddiwedd pob cwrs o driniaeth a gallant hefyd gwblhau adolygiad ar-lein o'u profiadau yn y clinig. Gellir rhoi adborth yn ddienw a gwnaethom nodi bod hyn yn arfer da.

Dywedwyd wrthym fod adborth y cleifion yn cael ei adolygu ar unwaith ac yn cael ei grynhoi bob chwarter i nodi unrhyw themâu. Caiff pwyntiau dysgu eu trafod â'r holl staff mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn ymwybodol bod eu barn ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn y clinig yn cael ei cheisio, er enghraifft, drwy ddefnyddio holiaduron cleifion.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal unigol sy'n canolbwyntio ar y claf ac roedd y gofal hwnnw wedi'i ddogfennu mewn cofnodion cleifion cywir a chynhwysfawr.

Roedd y cyfleusterau clinigol mewn cyflwr da ac roedd y peiriannau IPL/laser wedi'u gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl.

Roedd angen i'r staff gwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth berthnasol i nodi a gweithredu ar unrhyw bryderon ynghylch diogelu.

Mae'n rhaid i'r clinig sicrhau bod gwastraff gofal iechyd yn cael ei storio'n ddiogel y tu allan i'r clinig bob amser er mwyn atal mynediad anawdurdodedig gan gleifion, staff neu aelodau o'r cyhoedd.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod trefniadau cynnal a chadw addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl a oedd yn ymweld â'r safle.

Gwelsom dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau o wifrau trydanol a diogelwch nwy wedi'u cwblhau'n ddiweddar. Roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal hefyd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd asesiadau risg tân wedi'u cynnal yn rheolaidd gan arbenigwr diogelwch tân proffesiynol er mwyn rhoi sicrwydd parhaus bod trefniadau ar waith yn y clinig i ddarparu digon o ddiogelwch pe byddai tân. Roedd y dyfeisiau diffodd tân yn y clinig wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir ac roedd arwyddion priodol ar gyfer yr allanfeydd tân. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod profion ar larymau tân wedi'u cynnal yn wythnosol fel sy'n ofynnol gan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Gwelsom fod amrywiaeth eang o ddeunyddiau cymorth cyntaf sylfaenol ar gael yn y clinig a oedd o fewn eu dyddiadau dod i ben ac felly'n addas at y diben. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf a dadebru cardiobwlmonaidd brys (CPR) er mwyn helpu gydag anafiadau neu argyfyngau meddygol.

Roedd gan y clinig bedwar EpiPen² er mwyn helpu i drin symptomau adwaith alergaidd difrifol. Fodd bynnag, gwelsom fod tri ohonynt wedi darfod. Eglurodd y clinig yr anawsterau a gafwyd wrth geisio prynu rhai newydd oherwydd y prinder cenedlaethol o ddyfeisiau EpiPen. Mae AGIC yn deall bod dyfeisiau EpiPen ar gael erbyn hyn ac mae'n rhaid i'r clinig archebu rhai newydd er mwyn helpu i ddiogelu'r cleifion os bydd adwaith alergaidd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r clinig archebu dyfeisiau EpiPen newydd yn lle'r rheini yr oedd eu dyddiadau wedi dod i ben.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle mewn cyflwr gwyb ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y safle yn lân iawn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau rheoli heintiau addas a oedd ar waith yn y clinig a oedd yn cynnwys cynnal hylendid dwylo da a chwblhau rhestr wirio bob dydd er mwyn sicrhau bod yr ystafelloedd triniaeth a'r cyfarpar IPL/laser yn cael eu glanhau'n drylwyr. Gwelsom fod y trefniadau hyn yn gyson â'r rheini a oedd wedi'u hamlinellu ym mholisi rheoli heintiau'r clinig.

Roedd contract ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad oedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n

² Pigiad yw EpiPen sy'n cynnwys epineffrin, cemegyn sy'n culhau pibellau gwaed ac sy'n agor y llwybrau anadlu yn yr ysgyfaint. Gall yr effeithiau hyn wella pwysedd gwaed isel iawn, brest dynn, achosion difrifol o gosi'r croen, llosg danadl, a symptomau eraill, adwaith alergaidd.

ddiogel y tu allan i'r clinig. Caiff ein pryderon ynghylch y mater hwn yn ogystal â'r camau unioni a gymerwyd gan y clinig eu nodi yn Atodiad A.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae gofyn i rieni neu warcheidwaid plant dan 16 oed ddod i'r ymgynghoriad cychwynnol a phob sesiwn driniaeth er mwyn helpu i ddiogelu'r plant. Ni all unrhyw blant sy'n dod gydag oedolion i apwyntiadau fynd i mewn i'r ystafell driniaeth pan gaiff triniaeth ei chynnal er mwyn eu diogelu.

Roedd gan y clinig bolisiau diogelu ar wahân ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu. Gwelsom mai dim ond manylion cyswllt asiantaethau diogelu plant lleol oedd wedi'u cynnwys ac rydym yn argymhell y dylid ychwanegu manylion cyswllt asiantaethau diogelu oedolion lleol at y polisi perthnasol.

Dywedwyd wrthym nad oedd gweithredwyr y peiriannau IPL/laser wedi cwblhau hyfforddiant rheolaidd ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd rhai o weithredwyr y peiriannau IPL/laser yn y clinig hefyd yn gweithio i'r GIG a byddent wedi cwblhau hyfforddiant tebyg fel rhan o'r rôl honno. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod pob aelod o'r staff yn y clinig yn cwblhau'r hyfforddiant priodol ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i'r rheolwr cofrestredig a'r cleifion fod gan y staff y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth berthnasol i nodi a gweithredu ar unrhyw bryderon ynghylch diogelu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen ychwanegu manylion cyswllt asiantaethau diogelu oedolion lleol perthnasol at y polisi amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Dylai pob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant priodol ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a rhaid cyflwyno tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau i AGIC.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod trefniadau ar waith yn y clinig i sicrhau diogelwch cleifion wrth dderbyn triniaeth. Roedd y peiriannau IPL/laser wedi'u gwasanaethu a'u calibradu'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gweithio'n gyson ac yn ôl y disgwyl. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi llunio protocol triniaeth a oedd yn nodi'r gweithdrefnau i weithredwyr y peiriannau

IPL/laser eu dilyn er mwyn sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu'n ddiogel i gleifion. Gwelsom ei fod yn briodol ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau gan fod y rheolwr cofrestredig wedi cofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cytundeb ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) er mwyn rhoi cymorth parhaus ac amserol i'r clinig o ran diogelwch y peiriannau IPL/laser a'u defnydd gweithredol o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr LPA wedi ysgrifennu ato'n ddiweddar i ddweud na allai fodloni'r cytundeb mwyach. Gwnaethom argymhell bod y clinig yn dechrau gwneud trefniadau i ddod o hyd i LPA newydd a chawsom gadarnhad erbyn diwedd yr arolygiad fod ganddo gytundeb ar waith am LPA newydd i ddarparu'r un lefel o wasanaeth.

Roedd rheolau lleol cynhwysfawr³ ar waith a gafodd eu hadolygu'n flynyddol gan yr LPA. Gwnaethom nodi eu bod wedi cael eu llofnodi gan bob un o weithredwyr y peiriannau IPL/laser, gan ddangos eu bod yn ymwybodol bod angen iddynt ddilyn y rheolau hyn a chytuno iddynt.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod holl weithredwyr y peiriannau IPL/laser yn bodloni gofynion yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)⁴ i ddefnyddio peiriannau IPL/laser yn gymwys gan eu bod wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁵ a hyfforddiant gan wneuthurwyr peiriannau IPL/laser ar sut i'w gweithredu'n ddiogel.

Roedd sbectol amddiffynnol ar gael i gleifion, hebryngwyr a gweithredwyr y peiriannau IPL/laser. Gwelsom fod y sbectol a'r gogls yn cael eu cadw mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi. Roedd cod lliwiau ar y sbectol a'r

³ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf.

⁴ [Lasers, intense light source systems and LEDs – guidance for safe use in medical, surgical, dental and aesthetic practices](#)

⁵ Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio peiriannau IPL/laser yn ddiogel.

gogls er mwyn helpu i sicrhau bod y rhai cywir yn cael eu defnyddio gyda'r peiriant IPL/laser perthnasol a gwnaethom nodi bod hyn yn arfer da.

Ni chafodd unrhyw gleifion driniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad, ond disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y rhagofalon diogelwch a gymerir yn ystod triniaethau. Mae arwydd y tu allan i bob ystafell driniaeth yn rhybuddio bod y peiriant IPL/laser yn cael ei ddefnyddio a chaiff yr ystafell ei chloi er mwyn atal unrhyw unigolion anawdurdodedig rhag dod i mewn yn ystod triniaethau. Dywedwyd wrthym fod allweddi pob peiriant IPL/laser yn cael eu cadw dan glo ar ôl pob apwyntiad er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel pan na chânt eu defnyddio.

Gwelsom dystiolaeth bod yr LPA wedi ymweld â'r clinig ym mis Ebrill 2019 i gwblhau asesiad risg amgylcheddol i nodi a lleihau unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio'r peiriannau IPL/laser ac amgylchedd pob ystafell driniaeth.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod gan y clinig systemau ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Er enghraifft, gwnaethom nodi yn gynharach yn yr adroddiad fod y clinig yn rhoi cyfle i gleifion roi adborth drwy holiaduron ac adolygiadau ar-lein. Caiff cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol eu cynnal â'r holl staff i drafod unrhyw ddigwyddiadau, cwynion neu faterion yn ymwneud â diogelwch cleifion.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod yn goruchwyllo cynllun pob triniaeth er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ac yn addas ar gyfer y claf cyn gallu dechrau ar y driniaeth.

Gwelsom hefyd dystysgrifau o amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant perthnasol a ddilynwyd gan weithredwyr y peiriannau IPL/laser i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn helpu i wella'r gofal i gleifion.

Rheoli cofnodion

Gwelsom dystiolaeth o brosesau rhagorol ar gyfer cadw cofnodion a oedd yn helpu'r clinig i ddarparu gofal o ansawdd i gleifion. Roedd y clinig yn cadw cofnodion cleifion cynhwysfawr ar ffurf electronig a oedd yn cael eu cadw yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol.

Dywedwyd wrthym fod copïau wythnosol o gofnodion cleifion ar ffurf electronig yn cael eu creu a'u storio mewn cronfa ddata o bell (storfa gwmwl) yn

wythnosol er mwyn sicrhau y gellir adfer y data gwreiddiol pe bai unrhyw beth yn digwydd i'r clinig neu'r system ac na allai'r staff gael gafael arnynt mwyach.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rhoddwyd trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith gan y rheolwr cofrestredig er mwyn cefnogi'r staff sy'n gweithio yn y clinig.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion a gwelsom fod pob un ohonynt yn cael eu diwedddaru'n flynyddol.

Roedd holl weithredwyr y peiriannau IPL/laser yn meddu ar yr hyfforddiant priodol a'r wybodaeth berthnasol er mwyn helpu i ddarparu triniaeth ddiogel i bob claf.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Specialist Skin Clinic yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig sydd hefyd yn weithredwr peiriant IPL/laser. Ceir saith aelod arall o staff, y mae tri ohonynt hefyd yn weithredwyr peiriannau IPL/laser.

Gwelsom fod gan y clinig nifer o bolisiau ar waith a oedd yn cael eu diwedddaru'n rheolaidd a'i bod yn hawdd cael gafael arnynt.

Gwelsom fod gan y clinig dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol er mwyn ei amddiffyn rhag ceisiadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y clinig weithdrefn cwynion briodol a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoliadol. Roedd y weithdrefn gwyno wedi'i chynnwys mewn ffolder gwybodaeth i gleifion yn yr ardal aros. Roedd crynodeb o'r weithdrefn cwynion hefyd wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yn y canllaw i gleifion fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom fod systemau addas ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol a phryderon y bydd y clinig yn eu derbyn.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Rhoddwyd sicrwydd i ni fod gan weithredwyr y peiriannau IPL/laser yn y clinig y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ynghyd â'r hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser yn ddiogel.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod arfarniadau'n cael eu cynnal gyda phob aelod o'r staff bob blwyddyn er mwyn rhoi adborth i'r staff ar eu perfformiad a nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant yn y dyfodol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) er mwyn helpu i gydymffurfio â'r gofynion rheoliadol, sef bod gan y staff uniondeb addas a chymeriad da, helpu i ddiogelu cleifion rhag y perygl o ofal a thriniaeth amhriodol neu anniogel.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig broses briodol ar gyfer recriwtio a sefydlu unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio a chyfnod o fentora a goruchwyllo er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni'r rôl hon.

Roedd gan y clinig bolisi chwythu'r chwiban ar waith a oedd yn galluogi'r staff i godi unrhyw bryderon am arferion gwaith a allai effeithio ar ofal y cleifion.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y bin storio allanol a ddefnyddiwyd gan y clinig i storio ei wastraff gofal iechyd. Gwelsom fod clo y bin wedi torri ac felly nid oedd gwastraff gofal iechyd yn cael ei storio'n briodol nac yn ddiogel yn unol â chanllawiau arfer gorau.	Roedd hyn yn golygu bod risg ddifrifol y gallai'r cleifion, y staff ac aelodau o'r cyhoedd gael gafeael ar y gwastraff gofal iechyd a allai fod yn heintus yn y biniau, heb awdurdod.	Daethpwyd â'r gwastraff gofal iechyd y tu mewn i'r clinig a chafodd ei storio mewn lleoliad diogel tra bod y rheolwr cofrestredig yn trefnu i'r clo gael ei drwsio.	Cawsom sicrwydd ar yr un diwrnod yn fuan ar ôl yr arolygiad fod clo newydd wedi'i brynu a'i osod ar y bin storio allanol.

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Specialist Skin Clinic

Dyddiad arolygu: 16 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ni wnaed unrhyw argymhellion.				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r clinig archebu dyfeisiau EpiPen newydd yn lle'r rheini yr oedd eu dyddiadau wedi dod i ben.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol Safon 15	Cafodd chwistrellwyr Emerade newydd eu prynu i oedolion a phlant. Mae'r chwistrellwyr sydd wedi darhod wedi'u symud o'r clinig.	Dr Gonzalez	Archebwyd 23/10/19 Derbyniwyd 24/10/19
Mae angen ychwanegu manylion cyswllt asiantaethau diogelu oedolion	Rheoliadau Gofal	Mae manylion y Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru) wedi cael eu hychwanegu at	Dr Gonzalez	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ileol perthnasol at y polisi amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.	Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Bolisi Specialist Skin Clinic er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.		ar 11/12/19
Dylai pob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant priodol ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a rhaid cyflwyno tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau i AGIC.	Rheoliad 16 Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol Safon 11	Mae pob aelod o'r staff clinigol a gweinyddol wedi'i gofrestru ar gyfer cwrs lefel 2 Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed a Diogelu Plant. Cafodd y cwrs ei drefnu ar 6/12/19. Caiff y cyrsiau eu darparu gan goleg CPD ar-lein. Caiff y dyddiadau y bydd pob aelod o'r staff yn cwblhau'r cyrsiau eu hanfon ymlaen i AGIC maes o law.	Dr Gonzalez	Caiff y cyrsiau eu cwblhau dros y 12 wythnos nesaf.
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni wnaed unrhyw argymhellion.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Elizabeth Davies

Teitl swydd: Rheolwr y Clinig

Dyddiad: 11 Rhagfyr 2019